

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Â hithau'n ddechrau blwyddyn newydd, cyflwynwn i ofal Duw bawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gweddiwn eich bod wedi ac yn parhau i brofi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich galar a'ch hiraeth. Cofiwn yn arbennig heddiw am Geraint Williams (Henllan) a'r teulu i gyd ym marwolaeth ei chwaer, Gwenda Wyn Jones, ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf atynt. Yr un yw'n cydymdeimlad ag Alyson Haf Jones (Llansannan) a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Eifion Glyn Evans. Gyda thristwch hefyd y clywyd am farwolaeth Enid, chwaer i Sian Wynne Jones (Llansannan) ac anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Sian a'r teulu i gyd. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod dros y teuluoedd hyn mewn ffordd arbennig ac y byddant yn profi nerth a chynhaliadaeth Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Iorwen Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Dilys Jones (Nantglyn) yn yr Inffirmari. Mae'n dda cael adrodd fod Aledwen Jones (Nantglyn) a Gwilym H. Davies (Nantglyn) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i'r pedwar ohonynt ac i bawb arall ohonoch sydd heb fod yn dda neu wedi cael anffawd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Aled Williams (Hiraethog) a Sioned ar enedigaeth mab, Iori Idris. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Bryn Goleu, Llansannan, DINBYCH LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (12^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2 Ionawr 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ar gychwyn blwyddyn arall gyda'n gilydd, mae'n briodol ein bod yn gweddi ar i Arglwydd y Lluoedd ein cynnal a'n harwain dros y 12 mis nesaf. Nid oes neb ohonom yn gwybod beth sydd rownd y gornel ond gall disgyblion Iesu brofi tangnefedd oherwydd bod gennym Dad cariadus sydd eisoes wedi gweithredu trwy anfon ei Fab yn Waredwr i'r byd. Dyna pam y caiff Cristnogion eu hannog yn y Beibl: *'Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddiwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen, a byddwch yn ddiolchgar bob amser. (Philipiad 4:6)*

Ond mae'n rhaid i ni gyfaddef nad yw diolchgarwch yn beth hawdd. Yn enwedig pan ydym ni neu'n cydnabod yn mynd trwy gyfnodau anodd, nid diolch yw'r peth cyntaf sydd ar ein meddwl. Ar yr union adegau hyn mae angen cymorth Duw arnom. Meddyliwch am sefyllfa Pedr ar y dŵr ym Mathew 14:22-33. Er bod Iesu gerllaw, pan roddodd Pedr sylw i fygythiad y gwynt a'r tonnau, dechreuodd suddo a gwaeddodd, "Arglwydd, achub fi." Mae'r hanes hwn yn ein dysgu mor hawdd yw petruso hyd yn oed pan ydym yn agos at yr Arglwydd, a sut y gallwn ddibynnu'n llwyr ar Iesu yn ein gwendid a'n diffyg ffydd. Iesu sy'n dod â heddwch drwy farw ar y Groes (Colosiaid 1:20), ac Ef yw'r Un nad oedd posib i farwolaeth ddal gafael ynddo. (Actau 2:24)

Beth am i ni ymrwymo ar ddechrau blwyddyn i weddi dros eraill yn eu cyfyngderau, ar i'r Ysbryd Glân eu galluogi i weld bod Iesu gyda hwy yng nghanol eu hofnau a'u poen?

Wrth sôn am ddiolchgarwch, mae'n addas ein bod yn diolch i Dduw am Ei ffyddlondeb wrth i ni gofnodi dirwyn yr achos i ben ym Mheniel. O ddechrau 2022 bydd y capel a'r adeiladau yn cael eu trosglwyddo i'r Henaduriaeth a hoffwn ddal ar y cyfle i ddiolch yn fawr i holl aelodau a blaenoriaid Peniel am y cyfan a wnaethant dros y blynyddoedd, ac yn arbennig am eu hurddas a'u pwyll wrth wynebu'r broses ddifrifol o benderfynu ar eu dyfodol. Er ein bod yn naturiol yn drist o weld diwedd pennod fel hon, ni allwn osgoi'r ffaith bod y sefyllfa ar draws Cymru'n awgrymu y bydd nifer pellach o'n heglwysi yn gorfod wynebu'r un penderfyniadau anodd yn ystod y blynyddoedd nesaf. Gofynnwn am arweiniad Duw wrth ymgodymu â materion o'r fath, a ffydd fyw i'n calonogi gydag addewid yr Arglwydd: *"Ni'th adawaf fyth, ac ni chefnaf arnat ddim."* (Hebreaid 13:5)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 2il

SYLWER: Ar wahân i'r ddau wasanaeth isod ac yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn lleol gan flaenoriaid a diaconiaid eglwysi'r Ofalaeth, oherwydd COVID, ni chynhelir oedfa mewn unrhyw gapel arall yn yr Ofalaeth heddiw (na'r Sul nesaf), ond bwriadwn adolygu'r sefyllfa eto ymhen pythefnos.

- **Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain** am 10:00.
- **Oedfa'n fyw ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri am 10:30. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)

Dydd Sul, Ionawr 9fed

- **Oedfa ar YouTube** am 10:30. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)
- **Sgwrs a Gweddi** am 6:00 yr hwyr o dan arweiniad Rhodri. Cysylltwch â Mair yn nes i'r amser i gael gwybod a fydd y cyfarfod mewn adeilad neu ar ZOOM.

Dydd Sul, Ionawr 16eg

SYLWER: Os bydd unrhyw eglwys yn penderfynu cynnal gwasanaeth yn eu capel ar y Sul hwn, bydd y manylion i'w gweld yn y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ond fe fydd oedfa ar YouTube i bawb sydd am ymuno yn rhithiol.

- **Oedfa ar YouTube** o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen am 10:30. Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben, neu cysylltwch â Mair i gael DVD, CD neu gopi papur o'r gwasanaeth. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.)
- **Sgwrs a Gweddi** am 6:00 yr hwyr o dan arweiniad Rhodri. Cysylltwch â Mair yn nes i'r amser i gael gwybod a fydd y cyfarfod mewn adeilad neu ar ZOOM.

Gofal Dydd Waengoleugoed

Diolch i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at ein casgliad arbennig tuag at waith Canolfan Gofal Dydd Waengoleugoed lle mae amryw o aelodau'r Ofalaeth a'r gymuned yn ehangach yn derbyn gofal a chefnogaeth amhrisiadwy. Os hoffech gyfrannu, gallwch wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu trwy anfon sic i Mair, **cyn diwedd Ionawr, os gwelwch yn dda**, yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Gofal Dydd Waengoleugoed' wedi ei ysgrifennu ar y cefn. Diolchwn am y gwasanaeth arbennig hwn ac am eich cefnogaeth chithau.

Yn ystod y misoedd diwethaf, bu i Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru lansio'r rhaglen 'GOLUD'. Mae'n siŵr bod y mwyafrif ohonom yn adnabod rhywun o fewn ein cylch teulu, ffrindiau a chymuned sy'n byw gyda dementia, felly bydd GOLUD yn fuddiol i ni ac i'n cymdeithas Gristnogol leol.

Beth yw bwriad GOLUD?

Mae nifer o bobl yn teimlo y gall ffydd fod yn ffynhonnell o gymorth mawr yn ystod cyfnod o newid ac wrth wynebu heriau bywyd. Bwriad GOLUD, wrth gydweithio ag eglwysi, yw cefnogi bywyd ysbrydol unigolion trwy'r cyfnod o fyw gyda dementia, er mwyn iddyn nhw fedru dal gafael ar y pethau sy'n werthfawr i fywyd y Cristion – darllen y Beibl, addoli, gweddïo a pherthyn i gymuned yr eglwys. Mae gweithredoedd bychain yn gallu cael dylanwad mawr!

'Y newyddion da yw y gallwn wneud camau bychain gyda'n gilydd a chynnal eglwys sy'n gynhwysol a chefnogol i'r rhai sy'n byw â dementia a'u teuluoedd, i'w galluogi i barhau i addoli a chynnal fflam eu ffydd yn Iesu.' – Cheryl Williams, Ffrindiau Dementia.

Gobeithiwn fedru rhoi mwy o sylw i'r rhaglen newydd yma yn ystod y flwyddyn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carys Davies (Cydlynnydd y Gogledd) –

carys.davies@ebcpcw.cymru / 01248 750323 / 07902 059832

